Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 6ed Tachwedd 2024

Presennol
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, P Jones, E Lewis, G Davies a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - R Ashton

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb a cafwyd munud o dawelwch er côf Meirion Jones a fuodd yn glerc i'r Cyngor ac yn brifathro i Ysgol Llanbrynmair am llawer o flynyddoedd

Cyflwyniadau – Mr a Mrs Norbury o Tyrpeg, Talerddig. Cyflwynwyd manylion am eu profiadau wedi gwrthdrawiad car yn erbyn y tŷ. Gofynwyd am cefnogaeth gan y Cyngor yn eu ymgyrch i newid cyfyngiadau cyflymder traffig a diogelwch ar y ffordd heibio'r pentref yn gyffredinol

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 2ail Hydref
Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cae Cymunedol - Diolch i B Jones am neiwd yr arwyddion rownd ar y gât. Cynnigwyd rhoi'r bainc sydd i fynd yn Llan ar y cae mawr dros dro. B Jones i edrych ar sut yw osod yn saff. Cafwyd adroddiad fod plant yn chwarae ar ben y container yn y cae. Mae'r cyhoedd yn defnyddio'r cae ar ei risg ei hyn a cyfrifoldeb y rhieni ydy'r plant.
2. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae'r gwaith trydannol wedi ei orffen ac yn aros am diweddariad ar y plymio. Mae S Reast wedi cael cadarnhad o'r 'Leakage Allowance' gan Hafren Dyfrdwy, £715.00.
3. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Rydym dal yn aros am dyddiad gan Thomas Hughes i trefnu'r hyfforddiant.
4. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
5. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Mae'r gwaith wedi ei cwbwlhau ond mae yna ychydig o clirio ar ôl i'w gwneud
6. Bainc yn Dolfach – Mae Toni Evans wedi cadarnhau fydd o'n gwneud y gwaith cyn gynted a phosib
7. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – S Reast wedi cysylltu efo Paul Williams, mae o'n cadarnhau fod y ffens ar ei rhestr o waith – dim diweddariad
8. Problemau gyda'r Ganolfan Iechyd – Cadarnhawyd fod y newidiadau arfaethedig yn mynd y neu flaen
9. Baw cŵn – S Reast wedi cwrdd â plant Ysgol Llanbrynmair i drefnu creu posteri
10. Llwybr heibio Ysgoldy Talerddig angen giat – S Reast wedi trafod y mater gyda perchnogion y tir ac maent yn hapus i'r gwaith mynd yn ei flaen

11. Peipen nwy yn mynd ar draws ffordd Brynaire – S Reast wedi atgoffa Cyngor Sir Powys i cydlyny'r ymholiad gyda'r cwmni nwy - dim diweddariad
12. Problemau yng Nghlanclegyr – G Mitchell wedi cwrdd a swyddogion Adran Tai ar y safle i trafod amryw o bethau gyda safleoedd parcio yn blaenoriaeth. S Reast wedi gofyn am cyflwyniad ygrifenedig gan rheini sydd a diddordeb mewn gerddi – dim diweddariad
13. Cyflwr dŵr – F Cauley wedi prynu'r offer profi dŵr ac yn cydlynu'r trefniadau i gwenud yr ymchwil
14. Cefnogaeth ariannol am gwasanaeth cyfieithu – Cadarnhawyd fod arian ar gael gan Menter Maldwyn
15. Coed yn tyfu ar Pont Bel – Fydd y tyfiant yn cael ei glirio ym mis Mai ond mae yna arolygiad yn digwydd ar y 6ed o Rhagfyr hefyd.
16. Polyn fflag wrth y Canolfan Cymdeithasol – S Reast i gwneud ymholiadau eto ynglyn a cael y polyn yn ôl – dim diweddariad
17. Llwytho coed yn Bont – Bydd angen cadarnhad fod y ffordd i Gelli Dywyll yn cael gofal tra fod coed yn cael ei lwytho yna. S Reast mewn cysylltiad a Pontrilas Sawmills
18. Ffair y Ganolfan – Cafodd y ffair ei ohirio oherwydd defnydd y neuadd i pobol sydd yn ymwneud a gwrthdrawiad y trennau yn Nolgoch
19. Coeden Nadolig – Trefniadau mewn llaw efo B Jones
20. Sul y Cofio – Fydd yna gwasanaeth yn y Ganolfan Cymdeithasol ar y 10fed o mis Tachwedd am 10.00yb.
21. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont – Cytynwyd ar testun ar gyfer arwydd yn gofyn am ystyrieath wrth parcio yno
22. Marwolaeth Meirion Jones – Cytynwyd i ddanfon carden i'r teulu ar rhan y Cyngor
23. Coeden Onen yn Maes yr Efail – Angen cadarnhad o perchnogaeth y goeden a gofyn iddo cael ei dorri i lawr
24. Diogelwch Tŷ'r Orsaf – Mae angen arwyddion gwell
25. Rhwydwaith Pethau Bychain – S Reast wedi ymuno a'r ymgyrch yn yr obaith fydd cymorth ar gael ar gyfer gardd cymunedol
26. Arolwg Byw ym Mhowys – Gofynwyd am llai o arolygon
27. Adroddiad gan llywodraethwyr yr ysgol – Gofynwyd am adroddiad o unrhyw beth fydd yn berthnasol i'r gymuned yn gyffredinol
28. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – Angen ei adrodd i BT/Open Reach
29. Arwydd am y toiledau ar y B4518 – S Reast i drafftio cynllyn
30. Casglu prescripsiannau o siop yn hytrach na'r ganolfan iechyd – F Cauley a S Reast i cydweithio ar testun i'w gyhoeddi

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	**Adroddwyd**	**Nodiadau**
Gridiau gwartheg – Talerddig, Cwm Nant yr Eira a Cwm Calch	Ie	Gridiau eraill hyd at Cwm Calch wedi eu arolygu, mae'n bosib fydd yr un uwchben Ffarm Talerddig yn cael ei wneud nesaf
Twll wrth y capel, Bont	Ie	S Reast wedi i adrodd i CSP
Cyflymder ceir trwy Bont	Ie	Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif

		a'u adrodd i'r heddlu
Cyflwr Ffordd Cwmffynnon		Wedi ei wneud
Cyflwr Ffordd i Coed		Wedi ei wneud
Cones ar ochr Ffordd Pandy		Gofynwyd am eglurhad o rheolau ynglyn a'r meter cyntaf ar ymylon pob ffordd. Dealltwyd fod pob sefyllfa yn anghyson ac yn aneglur
Tyllau yn y ffordd rhwng Dolgadfan a Llan	Ie	S Reast wedi adrodd i Powys

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder traffig yn Nhalerddig	Ie	Aros am cyfarfod eto ar y safle gyda cynrichiolwyr Asiantaeth Ffyrdd

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Islaw Bryn Coch	Ie	Coed wedi eu thocio ond dim ond i 5 troedfedd o uchder. Sylw wedi ei addo
Llan Hen Siop	Ie	LLN06 Angen caniatad ysgrifenedig gan y perchenog
Llan	Ie	LLN05 wedi torri
Canol y pentref	Ie	Goleuadau dal ymlaen o hyd

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Llythyr o ddiolch gan Network Rail am y cymorth a cawsant yn ystod cyfnod y damwain trên

Cynllunio

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 04/10/24

Cyfrif Cyfredol	£3,015.17
Cyfrif Cadw	£2,942.33
Cyfanswm	£5,957.50
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£5,957.50

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
06/11/24	Cyflog y Clerc - Hydref	£397.60	Cytunwyd
06/11/24	Treth ac NI ar cyflogau Hydref	£145.40	Cytunwyd
06/11/24	S J Ashworth – Glanhau Toiledau	£168.00	Cytynwyd
06/11/24	R A Hughes - Cyfieithu	£120.00	Cytynwyd
06/11/24	I Edwards – Gwaith ar y toileday	£100.00	Roedd I Edwards am

			i'r swm yma fynd i'r Ambiwlans Awyr
06/11/24	Ambiwlans Awyr Cyfraniad	£100.00	Cytynwyd
06/11/24	DRE & Co. – Costau PAYE	£123.00	Cytynwyd
06/11/24	Hafren Dyfrdwy	£159.29	Cytynwyd

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- F Cauley – Ochrau ffordd Pandy yn Bont yn disgyn
- F Cauley – Cyflymder traffic trwy Bont
- E Lewis – Cyflymder traffig trwy Llanbrynmair
- G Davies – Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan
- F Cauley – Brigiau o tocio sietyn yn achosi difrod i teiars
- I Edwards – Sietyn rhwng y garej a Pont Brics

Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 4th mis Rhagfyr 2024

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair